Gwneud Pethau'n Iawn dros Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru
Rheolau ymgeisio'r gystadleuaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Mae'r gystadleuaeth yn agored i holl ddisgyblion ysgolion cynradd Cymru.
Y dyddiad cau ar gyfer y cynigion yw **dydd Gwener 15 Ionawr 2010**.
Dylai pob cynnig gael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi'i darparu. Postiwch eich cynigion i:

Gwneud Pethau'n Iawn, d/o Working Word PR, Llawr 9, Tŷ Southgate,
Wood Street, Caerdydd CF10 1EW Neu anfonwch neges e-bost at info@workingwordpr.com

Dylai pob cynnig gael ei lofnodi gan athro neu athrawes y dosbarth.

Drwy ymgeisio yn y gystadleuaeth, mae'r ysgol yn cytuno i'r telerau a'r amodau isod.

- Mae pob cynnig yn cael ei wneud ar ran yr ysgol a chyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod pob cydsyniad angenrheidiol wedi'i sicrhau oddi wrth y disgyblion a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid.
- Ni ellir derbyn cyfrifoldeb dros gynigion sy'n cael eu colli a does dim modd dychwelyd y cynigion.
- Ni chaniateir i deuluoedd gweithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantau ymgeisio yn y gystadleuaeth.
- Un o amodau ymgeisio yw bod rhaid i'r ysgolion sicrhau bod y disgyblion yn cytuno a'u bod wedi cael y caniatâd angenrheidiol i gael tynnu eu llun, eu ffilmio neu eu recordio mewn cysylltiad â'r wobr neu â chyflwyno'r wobr.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gwobrau yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r ffotograffau, y ffilmiau neu'r recordiadau hynny at ddibenion hyrwyddo.

Wrth ymgeisio yn y gystadleuaeth, rydych chi'n cytuno na fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno unrhyw ddeunydd heblaw gwaith y disgyblion eu hunain
- Cyflwyno anwiredd neu gamliwiad a allai niweidio unrhyw drydydd parti neu beri tramgwydd iddyn nhw
- Cyflwyno unrhyw ddeunydd sy'n anghyfreithlon, yn sarhaus neu'n amhriodol mewn modd arall.

Bydd yr holl ddeunyddiau a fydd yn cael eu cyflwyno neu eu cynhyrchu fel rhan o'r gystadleuaeth yn cael eu trwyddedu i Lywodraeth Cynulliad Cymru a hynny ar drwydded fyd-eang sydd heb freindaliadau ac nad yw'n unigryw am byth yn unol â'r telerau a'r amodau hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r testun, y delweddau a/neu'r recordiadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym mha ffordd bynnag y mae'n credu ei bod yn addas (a all fod heb gysylltiad â'r gystadleuaeth), gan gynnwys y we, heb ganiatâd yr ymgeisydd a heb dalu i'w defnyddio fel hyn.

Dim ond i'r graddau y bydd hynny'n angenrheidiol ar gyfer y gystadleuaeth y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio manylion personol, a hynny o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1988 bob amser.

Panel a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn beirniadu'r cynigion. Bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

Does dim modd cael arian parod yn lle'r gwobrau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r hawl i newid manylion y gwobrau ar unrhyw adeg.

Caiff enwau'r enillwyr a goreuon y gweddill eu cyhoeddi erbyn dydd Gwener 26 Chwefror 2010. Caiff y manylion eu gosod ar wefan www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Byddwn yn cysylltu â'r ysgolion buddugol i drefnu cyflwyno'r gwobrau i'r disgyblion dan sylw.

Does dim modd gohebu na rhoi cyfweliad ar unrhyw fater sy'n codi o'r gystadleuaeth hon.

Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi enw'r ysgol a/neu enwau'r unigolion wrth ochr unrhyw ddeunyddiau wrth eu defnyddio.

Rhagor o wybodaeth gan info@workingwordpr.com